Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

# Dogfen Allweddol
# Themâu Trawsbynciol
# Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

## Integreiddio'r Themâu Trawsbynciol ar draws y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020.

Fersiwn 6

Dyddiad: Mawrth 2020

**Cynnwys**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhagair** ..... **3**

**Sut i ddefnyddio'r canllawiau** ..... **4**
Cyflwyniad ..... 4
Egwyddorion Arweiniol: ..... 4

**Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd** ..... **5**

**Datblygu Cynaliadwy** ..... **6**

**Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol** ..... **7**

**Rhwymedigaethau Statudol a Chymhwyster i Gael Cyllid yr UE** ..... **7**

**Cyd-destun Polisi a'r Fframwaith Deddfwriaethol** ..... **7**

Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw ..... 7
Adrodd ar y Bwlch Rhwng Cyflogau'r Ddau Ryw ..... 10
Cod ymarfer: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi ..... 10
Y Gymraeg ..... 11
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ..... 11
Datblygu Cynaliadwy ..... 12
Strategaeth Ddŵr i Gymru: ..... 17
Gofynion Polisi (annomestig) ..... 19
Beth yw BREEAM? ..... 19
Aseswyr ..... 19
Y Broses Asesu ..... 20
Y mathau o adeiladau mae hyn yn ei gynnwys ..... 20
Eithriadau ..... 20
Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol ..... 22
Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ..... 24
Gwersi a ddysgwyd o raglenni blaenorol. ..... 24

**Strategaeth ar gyfer Gweithredu'r Themâu Trawsbynciol** ..... **25**

**Dangosyddion Themâu Trawsbynciol Ffurfiol** ..... **25**

**Dangosyddion Lefel (Prosiect) Achosion Themâu Trawsbynciol** ..... **26**

**Monitro a Gwerthuso** ..... **28**

**Themâu Trawsbynciol a Dirwyn Prosiect i Ben:** ..... 28

**Ffeithluniau ar y Themâu Trawsbynciol:** ..... **28**

**Cofnod Diweddaru'r Canllawiau ar Themâu Trawsbynciol (CCT) ar gyfer fersiwn** **29**

# Rhagair

Mae'r Themâu Trawsbynciol, y cyfeirir atynt hefyd fel themâu llorweddol, yn faterion sy'n cyffwrdd ag egwyddorion cyffredinol megis democratiaeth, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a llywodraethu da. Maent yn galw am weithredu mewn nifer o feysydd a chan hynny mae angen iddynt gael eu hintegreiddio ym mhob agwedd ar y rhaglenni Cyllid Ewropeaidd a chael sylw yn y deialog am ddatblygu'r rhaglenni.

Ar gyfer rhaglenni 2014-2020, y Themâu Trawsbynciol yw Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

O fewn cyd-destun polisi sy'n esblygu, mae'r darlun o ran integreiddio'r Themâu Trawsbynciol yng Nghymru'n un o ddatblygu a gwella'n gyson o raglenni blaenorol. Mae ymwybyddiaeth gynyddol, datblygiadau cadarnhaol mewn deddfwriaeth a pholisi, ynghyd â newidiadau mewn agweddau, wedi cyfuno â gwersi a ddysgwyd a ffocws clir gan y Comisiwn Ewropeaidd i wthio'r agenda yn ei blaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu polisïau ar draws yr ystod o gyfrifoldebau statudol sydd ganddi gan gynnwys Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a hefyd Trechu Tlodi.

Y nod yw parhau â'r cynnydd a wnaed a sicrhau bod manteision rhaglenni 2014-2020 yn cael eu gwasgaru'n deg rhwng y bobl a'r cymunedau yn y rhanbarth, gan felly gynyddu i'r eithaf effaith y rhaglenni a dangos y gwerth ychwanegol gwirioneddol sy'n deillio o integreiddio egwyddorion y Themâu Trawsbynciol yn llwyddiannus.

Nod y Themâu Trawsbynciol yw gwella ansawdd a gwaddol pob un o'r gweithrediadau a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol ac ychwanegu gwerth at raglenni yn gyffredinol. Byddant yn gofyn am gamau gweithredu mewn sawl maes a byddant yn cael eu hymgorffori wrth ddylunio a chyflawni pob gweithrediad. Ceir tair Thema Trawsbynciol.: Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhyw a'r Gymraeg; Datblygu Cynaliadwy; a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

Yn olaf, hoffem gydnabod a diolch i'r sefydliadau a adolygodd y fersiwn ddrafft o'r canllawiau ar y Themâu Trawsbynciol, y mae eu sylwadau wedi cael eu cynnwys yn y fersiynau terfynol.

## Sut i ddefnyddio'r canllawiau

Mae'r canllawiau canlynol wedi'u bwriadu ar gyfer unrhyw un sy'n rhan o ddatblygu 'Gweithrediadau', yn enwedig 'Arweinydd Gweithrediadau' a staff Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) gyda golwg ar sicrhau bod y themâu trawsbynciol yn cael eu hintegreiddio gymaint ag a ellir.

Mae'r canllawiau ar y themâu trawsbynciol ar gyfer rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cynnwys y Ddogfen Allweddol hon a Matrics Themâu Trawsbynciol. Mae'r ddogfen hon yn nodi:

- diffiniad o'r tair thema drawsbynciol ynghyd â'r amcanion penodol;
- cyd-destun ac amcanion polisi'r themâu trawsbynciol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi 2014-2020;
- y fframwaith ddeddfwriaethol;
- y broses monitro a gwerthuso a fydd yn cael ei defnyddio i asesu llwyddiant o ran integreiddio'r themâu trawsbynciol ar draws rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi.

Mae matrics y themâu trawsbynciol yn darparu rhestr o gamau gweithredu, wedi'u rhannu fesul Rhaglen a Blaenoriaeth unigol, y mae'n rhaid i 'Weithrediadau' ystyried eu cynnwys gyda golwg ar gynyddu i'r eithaf y potensial ar gyfer cyflawni'r themâu trawsbynciol.

### Cyflwyniad

Mae'r Rheoliadau sy'n rheoli'r Rhaglenni Ewropeaidd yn amodi bod yn **rhaid** i'r holl weithrediadau a gyllidir drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd integreiddio Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw a Datblygu Cynaliadwy fel themâu llorweddol, yn ogystal â chymryd camau gweithredu i Drechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. Bydd y themâu trawsbynciol hyn yn ychwanegu gwerth, yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a hefyd yn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ac yn lliniaru effeithiau anffafriol. Bydd hyn yn helpu gweithrediadau i symud y tu hwnt i gydymffurfio a datblygu systemau sy'n cefnogi arfer gorau.

### Egwyddorion Arweiniol:

Bydd yr egwyddorion cyffredin canlynol yn rhoi arweiniad o ran dethol gweithrediadau yn y dyfodol ar draws yr holl Flaenoriaethau Buddsoddi:

- Dylai ymyriadau geisio integreiddio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gyson â phrif egwyddor drefniadol datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at ganlyniadau'r themâu trawsbynciol.



Gwefan: https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-canllawiau-prosiectau | E-bost: enquiries-wefo@wales.gov | Ffôn: 0845 010 3355

## Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd

Mae thema drawsbynciol cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd yn amcanu at leihau anghyfiawnder a hybu cynhwysiant cymdeithasol. Bydd hyn yn darparu'r cyfle i'r holl fuddiolwyr cymwys gyfranogi a defnyddio'u sgiliau a'u galluoedd i godi lefelau Cynnyrch Domestig Gros yng Nghymru. Bydd hyn yn ei dro'n helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn enillion rhwng menywod a dynion ac eraill â nodweddion gwarchodedig.

Yr amcanion cydraddoldeb allweddol ar gyfer rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru yw:

- Annog mentrau entrepreneuriaeth a dechrau busnes i annog mwy o ymwneud gan bobl ifanc, menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol
- Cefnogi'r broses o greu amgylchedd sy'n cefnogi gweithleoedd cynhwysol ac yn hybu cyfle cyfartal i staff, gan gynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd gwaith a bywyd preifat
- Sicrhau bod mynediad at dechnoleg ar gael ac yn hygyrch i bawb, yn enwedig i bobl mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn, pobl anabl ac eraill y mae'r 'bwlch digidol' yn effeithio arnynt
- Cefnogi Ymchwil, Datblygu ac Arloesi sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau cymdeithasol, megis cefnogi heneiddio'n egnïol, creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer unigolion a chefnogi byw'n annibynnol
- Cefnogi mynediad i bobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig at gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys drwy ddatrysiadau cludiant cynaliadwy
- Adnabod a chefnogi cyfleoedd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- Cefnogi cystadleurwydd y sector gofal plant lle mae'n cyflawni amcanion yr Echel Flaenoriaeth gysylltiedig
- Cefnogi'r broses o greu amgylchedd sy'n cefnogi gweithleoedd cynhwysol, sy'n hybu cyfle cyfartal i staff, gan gynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd gwaith a bywyd preifat
- Annog mentrau entrepreneuriaeth a dechrau busnes i annog mwy o ymwneud gan fenywod.

## Datblygu Cynaliadwy

Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
*Adroddiad Brundtland "Our Common Future" 1987*

Datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru. Mae cynnwys datblygu cynaliadwy fel thema drawsbynciol yn elfen hollbwysig i sicrhau bod rhaglenni a gweithrediadau'n cyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar yr un pryd. Mae amgylchedd deniadol, o ansawdd da'n cyflawni swyddogaeth allweddol o ran denu pobl i fyw a gweithio yng Nghymru a'u cadw yn y wlad, yn ogystal â darparu'r ansawdd bywyd ar gyfer trigolion yng Nghymru.

Amcanion allweddol rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yw:

- Hybu ymchwil ac arloesi ym maes Her Fawr carbon isel, ynni a'r amgylchedd, gan adeiladu ar y buddsoddiadau sylweddol a wnaed yn y maes hwn dan raglenni 2007-2013
- Datblygu'r sector carbon isel, ynni a'r amgylchedd drwy gyngor a chymorth busnes a chyllid i fusnesau dan y Flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaChau
- Hybu effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, drwy ymyriadau dan y Flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaChau
- Cynyddu'r potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy gymorth ar gyfer Ymchwil a Datblygu, a galluogi buddsoddiadau mewn isadeiledd yn niwydiant ynni'r môr yng Nghymru
- Cynyddu nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan a chymunedol;
- Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd ac amddifadedd (fel a fesurwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
- Hybu cynlluniau ynni carbon isel ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig
- Cefnogi datrysiadau cludiant carbon isel a chynaliadwy, gan gynnwys drwy gysylltu unigolion sy'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar â gwaith a hyfforddiant.

## Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Mae trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol yn ymrwymiad gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru a fydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i greu cyfleoedd cyflogaeth a datblygiad gyrfa ac a fydd yn helpu pobl i gael mynediad at y cyfleoedd hynny. Yr amcanion allweddol o ran trechu tlodi ar gyfer y Rhaglenni yng Nghymru yw:

- Ffocws ar greu swyddi a thwf gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y rhai sydd heb waith. Er enghraifft, drwy gynyddu Cystadleurwydd BBaChau
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth. Er enghraifft mynd i'r afael â sgiliau gwael a diffyg gofal plant drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ynghyd â mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad at gyflogaeth sy'n ymwneud â chludiant drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
- Canolbwyntio ar dwf. Er enghraifft, drwy gymorth i sectorau allweddol sy'n seiliedig ar wybodaeth drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ochr yn ochr ag ymyriadau datblygu sgiliau sy'n galluogi'r rhai sy'n profi tlodi mewn gwaith i gael mynediad at swyddi mwy crefftus, â chyflog gwell drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

## Rhwymedigaethau Statudol a Chymhwyster i Gael Cyllid yr UE

Mae camau gweithredu y byddai angen i'r buddiolwr arweiniol fod wedi'u rhoi ar waith a'u cyllido heb ystyried gweithrediad yr UE, oherwydd rhwymedigaethau statudol, wastad yn gostau anghymwys.

Fodd bynnag, mae camau gweithredu y mae eu hangen o ganlyniad i weithrediad yr UE, er mwyn ymlynu wrth ofynion statudol, yn gostau cymwys, e.e. addasiadau rhesymol i ddileu rhwystrau (gan gynnwys rhwystrau ffisegol) i gyfranogiad mewn gweithrediad. Dylai'r costau cymwys gynnwys dim ond y costau cynyddrannol h.y. y camau gweithredu (a chostau) ychwanegol y tu hwnt i'r rhai y byddai angen i'r sefydliad fod wedi'u rhoi ar waith, hyd yn oed pe na bai gweithrediad yr UE yn bodoli. Dylai hyn wastad gael ei drafod a'i gytuno gyda WEFO ymlaen llaw i sicrhau bod cyllideb ar gael ac ati.

## Cyd-destun Polisi a'r Fframwaith Deddfwriaethol

### Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw

Mae integreiddio cyfle cyfartal, prif ffrydio rhywedd a'r Gymraeg (yr ydym hefyd yn ei chynnwys yn y thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal) yn bwysig. Nid dim ond am resymau

cyfreithiol y mae hyn, ond hefyd am fod goresgyn anghydraddoldebau rhwng gwahanol rannau cymdeithasol a demograffig o'r gymdeithas yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y gweithgarwch a gyflawnir gan y rhaglenni.

Mae RHEOLIAD (UE) Rhif 1303/2013 Erthygl 7 – *Promotion of equality between men and women and non-discrimination* yn datgan fel a ganlyn:

Rhaid i'r Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn sicrhau yr ystyrir cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac integreiddio safbwynt o ran rhywedd ac y cânt eu hyrwyddo wrth baratoi a gweithredu rhaglenni, gan gynnwys mewn perthynas â monitro, adrodd a gwerthuso.

Rhaid i'r Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn gymryd camau priodol i rwystro unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar ryw, hil neu darddiad ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol wrth baratoi a gweithredu rhaglenni. Yn benodol, rhaid ystyried gofynion hygyrchedd i bobl anabl wrth baratoi a gweithredu rhaglenni.

Rhaglen dwf ddeng mlynedd yr Undeb Ewropeaidd yw Ewrop 2020. Nod y strategaeth yw mynd i'r afael â'r diffygion economaidd-gymdeithasol gan greu amodau ar gyfer twf mewn modd doethach, cynaliadwy a chynhwysol. Mae'r targedau'n cynnwys:

- Bod 75% o'r bobl 20-64 oed yn gyflogedig
- Gostwng cyfraddau'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn gynnar islaw 10%
- Bod o leiaf 40% o bobl 30-34 oed yn cwblhau addysg trydedd lefel
- Bod 20 miliwn yn llai o bobl yn profi neu mewn perygl o brofi tlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae deddfwriaeth arall y mae'n rhaid bod Gweithrediadau wedi'u hystyried yn cynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[1]
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[2]
- Deddf Cydraddoldeb 2010
  (Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil ac Ethnigrwydd, Crefydd a Chred, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol)
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (gan gynnwys y Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol yng Nghymru)
- Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- a35(2) Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

[1] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae'n cynnwys 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' https://llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru
[2] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru (2020-2024) a'r amcanion cydraddoldeb, yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol yn ogystal â'i hymrwymiad cryf i gydraddoldeb a chynhwysiant. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei ddatblygu yn unol â dyletswyddau cyffredinol y sector cyhoeddus o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus, a adwaenir fel dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sy'n datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir dan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Yn ogystal â hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus weithredu trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn nodi'r wybodaeth berthnasol sydd ganddynt ynghyd â nodi a chasglu unrhyw wybodaeth berthnasol nad oes ganddynt yn eu meddiant. Rhaid cynnal asesiad er mwyn nodi gwybodaeth berthnasol.

Mae hefyd angen i awdurdodau cyhoeddus wneud trefniadau i asesu effaith debygol polisïau ac arferion arfaethedig (gan gynnwys adolygiadau neu bolisïau wedi'u diwygio) ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. Rhaid bod trefniadau ar waith ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ynghylch yr asesiadau hyn pan fo'r asesiad yn dangos ei bod yn debygol y bydd effaith sylweddol ar allu awdurdod i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.

Wrth asesu materion o'r fath, rhaid i awdurdod gydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu ac ystyried yr wybodaeth berthnasol yn briodol. Rhaid i awdurdod hefyd fonitro effaith ei bolisïau a'i arferion ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.

**Mae Polisïau / Strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd yn cynnwys:**

- Gweithredu ar Anabledd: fframwaith a chynllun gweithredu ar yr hawl i fyw'n annibynnol
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023 (Mae'r strategaeth hon yn nodi pobl hŷn yn Nghymru fel pobl 50+ oed)
- Y Cynllun Galluogi sipsiwn, roma a theithwyr
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol (ac Amcanion) 2020-2024
- Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr
- Cymraeg 2050 – Rhaglen Waith 2017-21

Yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r rhaglen hon, ceir asesiad cadarn o anghenion y rheini a allai fod mewn perygl o fod yn destun eithrio, anfantais neu wahaniaethu oherwydd un neu ragor o'r nodweddion sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a'u hanghenion penodol o ran cefnogi mynediad at gyflogaeth a sgiliau. Mae'r Asesiad o'r Effaith yn nodi y gall grwpiau sydd â nodweddion sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wynebu materion penodol sy'n effeithio ar eu gallu i gael mynediad at y farchnad lafur a datblygu oddi mewn iddi. Gall hyn achosi iddynt wynebu risg uwch o dlodi a chael eu hallgáu.

Mae'r Asesiad hefyd yn dangos bod effaith anghymesur ar grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o ran cyflogaeth, gyda chysylltiad agos rhwng ethnigrwydd â thlodi incwm. Cafwyd barn ffurfiol gan  y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (yng Nghymru) ar ba mor briodol yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Rhaglenni ERDF.[3]

## Adrodd ar y Bwlch Rhwng Cyflogau'r Ddau Ryw

Ar 6 Ebrill 2017 cyflwynwyd deddfwriaeth newydd ar gyflogau'r ddau ryw sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus sydd â mwy na 250 o weithwyr i gyhoeddi cyfrifiadau statudol bob blwyddyn yn dangos maint y bwlch rhwng cyflogau eu gweithwyr gwrywaidd a benywaidd. Y DU yw un o'r gwledydd cyntaf i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath.

Y dyddiad y dylid seilio cyfrifiadau arnynt ar gyfer y sector cyhoeddus yw 31 Mawrth ac, ar gyfer y sectorau preifat a gwirfoddol, 5 Ebrill. Bydd gan gyflogwyr flwyddyn o'r dyddiad perthnasol i gyhoeddi eu data. Cewch ragor o wybodaeth **fan hyn.**

## Cod ymarfer: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi

Bydd disgwyl i bob sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, yn uniongyrchol neu drwy grant neu gontract, ymrwymo'r cod. Caiff sefydliadau eraill yng Nghymru eu hannog i ymrwymo iddo.

Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddilyn cyfres o gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag arferion cyflogi gwael.

Mae'r ymrwymiadau yn y cod yn helpu i sicrhau bod y gweithwyr yn ein cadwyni cyflenwi yn cael eu cyflogi'n deg.
https://llyw.cymru/cyflogaeth-foesegol-mewn-cadwyni-cyflenwi-cod-ymarfer-arweiniad-hyfforddiant

[3] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd  2014-20
https://llyw.cymru/rhaglen-cronfa-gymdeithasol-ewrop-2014-i-2020-asesiad-or-effaith-ar-gydraddoldeb

## Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru am i Gymru fod yn genedl gwbl ddwyieithog lle gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu'r ddwy iaith, a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i bob un ohonom. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn 'Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr' sef y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog a'i Chynllun Iaith Gymraeg i brif ffrydio'r Gymraeg ar draws y meysydd polisi. Bydd gweithredu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Bydd disgwyl i fuddiolwyr arweiniol ddilyn telerau dogfen Comisiynydd y Gymraeg 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg'[4]. Bydd angen cynnwys costau cydymffurfio â'r gofynion o ran y Gymraeg yn y rhagamcanion ariannol ar gyfer y gweithrediad.

Gall Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd chwarae rhan bwysig i gefnogi ymdrechion i ddatblygu'r Gymraeg yng nghyd-destun twf economaidd a chreu swyddi. Gall gweithrediadau gyfrannu at y nodau hyn drwy:

1. Sicrhau bod yr holl weithrediadau a gwasanaethau a gyllidir gan grantiau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu hyrwyddo'n weithredol;

2. Sicrhau bod yr holl weithrediadau yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i'r Gymraeg, megis:

    a. cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan gyfranogwyr;
    b. cynnydd yn y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ac yn y defnydd a wneir ohonynt;
    c. sgiliau Cymraeg yn gwella;
    d. gwell cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith;
    e. gwell ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg o ran cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol a datblygu economaidd.

3. Monitro cynnydd a chanlyniadau cadarnhaol o ran y Gymraeg.

Yn ogystal â chyfrannu at nodau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, byddai rhoi'r mesurau uchod ar waith yn cyfrannu at gydymffurfio â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a, maes o law, Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011 ac mae'n sefydlu fframwaith i gyrff y Sector Cyhoeddus, rhai cwmnïau preifat a

[4] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

sefydliadau’r trydydd sector gydymffurfio â safonau, ac mae’n rhoi’r pŵer i’r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i gwmni neu sefydliad gydymffurfio â safon.

Dyma rai o'r meysydd y mae’r Mesur hwn yn ymdrin â hwy:

- mae’n rhoi statws swyddogol i’r iaith Gymraeg yng Nghymru
- mae’n gwneud darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio’r Gymraeg
- mae’n gwneud darpariaeth ynghylch safonau sy’n ymwneud â’r Gymraeg
- mae’n sefydlu’r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg
- mae’n gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwilio i achosion o ymyrryd â’r rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg
- mae’n sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ac yn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Ceir gwybodaeth fanwl am sut y gall sefydliadau cyhoeddus, cyrff y Goron, cwmnïau preifat a chyrff y trydydd sector gydymffurfio â’r safonau ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Ceir hefyd rhestr o’r mathau o gwmnïau preifat a sefydliadau yn y trydydd sector sydd wedi eu cynnwys yn y Mesur.[5]

## Datblygu Cynaliadwy

Mae’r Rheoliadau Cyffredinol sy’n rheoli’r Rhaglenni Ewropeaidd yn amodi bod rhaid i’r holl weithrediadau a gyllidir drwy’r Fframwaith Strategol Cyffredin, sy’n cynnwys y cronfeydd strwythurol, integreiddio Datblygu Cynaliadwy dan Erthygl 8.

> Rhaid i amcanion Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd gael eu holrhain yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a gwaith hyrwyddo’r Undeb o’r nod i gadw, diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd, fel yr amlinellir yn Erthygl 11 ac Erthygl 191(1), Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, gan ystyried yr egwyddor “y llygrwr sy’n talu”.

Rhaid i’r Aelod-wladwriaethau a’r Comisiwn sicrhau y caiff y gofynion diogelu amgylcheddol, effeithlonrwydd yr adnoddau, lliniaru ac addasu’r newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, cadernid yn erbyn trychinebau a rheoli ac atal risgiau eu hyrwyddo wrth baratoi a gweithredu Cytundebau Partneriaeth a rhaglenni. Rhaid i’r Aelod-wladwriaethau ddarparu gwybodaeth am y cymorth ar gyfer amcanion newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio methodoleg yn seiliedig ar gategorïau ymyrraeth, ardaloedd neu fesurau ffocws, fel y bo’n briodol, ar gyfer holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Rhaglen dwf ddeng mlynedd yr Undeb Ewropeaidd yw Ewrop 2020[6]. Nod y strategaeth yw mynd i’r afael â’r diffygion economaidd-gymdeithasol gan greu amodau ar gyfer twf

[5] Gwefan Comisiynydd y Gymraeg: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/Gyfraith/Mesur%20y%20Gymraeg%20(Cymru)%202011/Pages/Mesur-y-Gymraeg-(Cymru)-2011.aspx

[6] Ewrop2020: https://ec.europa.eu/eurostat/web/europe-2020-indicators

mewn modd doethach, cynaliadwy a chynhwysol.

Mae Ewrop 2020: Twf Cynaliadwy (Strategaeth yr UE) yn nodi'r amcanion canlynol:

- Pwyslais ar effeithlonrwydd adnoddau;
- Economi wyrddach, fwy cystadleuol;
- Allyriadau carbon is (gostyngiad o 20% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr 1990-2020);
- Diogelu'r amgylchedd, gan ostwng allyriadau ac atal colled bioamrywiaeth;
- Datblygu technolegau gwyrdd;
- Gridiau trydan clyfar (gostyngiad o 20% mewn defnydd);
- Gwell amgylchedd busnes a chymorth i gwsmeriaid

Mae'r Ddeddfwriaeth Amgylcheddol ar gyfer y DU sy'n gymwys i Gymru fel a ganlyn:

- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006
- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygio) 1991
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Rheoli Llygredd 1974
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2011
- Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd i hybu datblygu cynaliadwy fel a amodir dan Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[7], sy'n datgan:

*The Welsh Ministers must make a scheme ("the sustainable development scheme") setting out how they propose, in the exercise of their functions, to promote sustainable development.*

*The Welsh Ministers:*
*(a) must keep the sustainable development scheme under review, and.*
*(b) may from time to time remake or revise it.*

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r agwedd Gymreig ar ddatblygu cynaliadwy, sef "lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau, sy'n ymgorffori ein gwerthoedd ynghylch tegwch a chyfiawnder cymdeithasol". Bydd diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd ochr yn ochr â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy'n cael eu cyfuno i gyfrannu'n llawn at integreiddio thema drawsbynciol datblygu cynaliadwy.
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn cryfhau trefniadau llywodraethu sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwella llesiant Cymru i sicrhau bod anghenion y presennol

[7] Deddf Llywodraeth Cymru 2006: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/notes/division/5/3/8

yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Ddeddf yn:

- pennu nodau i wella llesiant Cymru;
- cyflwyno dangosyddion cenedlaethol a fydd yn mesur y gwahaniaeth a wneir i lesiant Cymru;
- sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru i weithredu fel eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol;
- gwneud byrddau gwasanaethau lleol a chynlluniau llesiant yn statudol ac yn symleiddio'r gofynion ar gyfer cynllunio cymunedol integredig.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, ewch i: https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-canllawiau

Nod Deddf yr Amgylchedd yw cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd. Mae'n gosod sefyllfa Cymru fel economi carbon isel a gwyrdd sy'n barod i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn fodd i sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mawr i Gymru. Fe'i cynlluniwyd yn ofalus, a hynny er mwyn ategu a helpu gyda'r gwaith i sicrhau lles Cymru yn yr hirdymor, fel y bo'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yn elwa ar economi lewyrchus, amgylchedd iach a chydnerth, a chymunedau ffyniannus a chydlynol.

Dyma rannau allweddol y Ddeddf:

- Rhan 1: Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol;
- Rhan 2: Newid yn yr Hinsawdd;
- Rhan 3: Codi Taliadau am Fagiau Siopa;
- Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff;
- Rhannau 5 a 6: Pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn a thrwyddedu morol;
- Rhan 7: Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a draenio tir;

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, ewch i: https://llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-trosolwg

Y Polisi ar Adnoddau Naturiol yw ail gynnyrch statudol Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Ffocws y polisi hwn yw mynd ati i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, a sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cyfrannu cymaint â phosibl wrth gyflawni nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae'r polisi yn amlinellu tair Blaenoriaeth

Genedlaethol, sef:

- Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur,
- Cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon,
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, ewch i:

https://llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn hwyluso datblygiadau.

Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â phum prif amcan:

- fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio;
- atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun;
- gwella cydnerthedd;
- rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella;
- galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol;

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, ewch i: https://llyw.cymru/polisi-a-chanllawiau-cynllunio-ar-gyfer-proffesiynol

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i hybu datblygu cynaliadwy drwy ei hagenda twf gwyrdd sy'n cyflwyno dull newydd o ran twf economaidd, yn gwneud lles pobl yn ganolog i ddatblygu, gan sicrhau bod asedau naturiol yn dal i ddarparu'r adnoddau a'r gwasanaethau amgylcheddol i gefnogi datblygu cynaliadwy[8]. Drwy roi ystyriaeth benodol i'r amgylchedd a gwerth asedau naturiol, mae twf gwyrdd yn ehangu diffiniadau traddodiadol o gyfoeth fel eu bod yn cynnwys lles ac ansawdd twf a datblygu. Mae cysyniad twf gwyrdd yn fwy cul o ran ei gwmpas na chysyniad datblygu cynaliadwy, ac yn darparu agenda bolisi a all helpu i gyflawni cynnydd pendant, mesuradwy ar y rhyngwyneb rhwng yr economi a'r amgylchedd. Mae twf gwyrdd yn hybu ffordd gost-effeithiol ac adnodd-effeithlon o lywio prosesau cynhyrchu a dewisiadau defnyddio cynaliadwy. Pan fo wedi'i fwriadu i leihau tlodi a rheoli cyfnewidiadau yn y tymor agos, gall twf gwyrdd helpu gwledydd datblygol i gyflawni datblygu cynaliadwy.

[8] Cyhoeddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd "Putting Green Growth at the Heart of Development" http://www.oecd.org/greengrowth/

Mae rheoliadau'r cronfeydd strwythurol yn gyson â Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU[9] a'r cynllun datblygu cynaliadwy Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned[10]. Nod y cynllun yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, a chyflawni ansawdd bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:

- Mewn ffyrdd sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- Mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau – gan ddefnyddio dim ond cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal yr etifeddiaeth ddiwylliannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd a sicrhau y caiff ei gadw a'i wella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn sicrhau bod materion megis colli bioamrywiaeth, tipio anghyfreithlon, sbwriela a graffiti yn cael eu rheoleiddio a bod y camau gorfodi angenrheidiol yn cael eu gweithredu. Mae'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' yn safon sy'n arwain Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU ac felly mae'n rhan o egwyddor cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu sicrhau bod Cymru'n arwain y ffordd o ran rheoli gwastraff yn gynaliadwy drwy'r ddogfen strategaeth drosfwaol "Tuag at Ddyfodol Diwastraff"[11]. Mae'r strategaeth gwastraff yn nodi mai atal gwastraff yw'r opsiwn a ffafrir fwyaf, gyda lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu, adfer ynni ac, yn olaf, gwaredu yn dilyn. Dylai effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff, gael ei hybu wrth gyflawni a gweithredu gweithgarwch y gweithrediad, drwy ddilyn yr hierarchaeth gwastraff[12] i wella'r modd y rheolir gwastraff. Dylai sefydliadau sy'n noddi benderfynu sut y maent yn gwahanu ac yn storio deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu a sut y gall y deunyddiau hyn gael eu casglu'n ddiogel o'r safle.

Mae'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff[13] (WEEE) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn gyfrifol am gaffael offer TGCh y gellir ei ailgylchu a sicrhau bod yr offer yn cael ei ailgylchu ar ddiwedd ei oes. Dylai gweithrediadau gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a ddylai ddwyn arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu strategaethau Datblygu Cynaliadwy yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni'r amcan hwn megis ISO 14000[14]. Dylid datblygu a mabwysiadu dulliau sy'n lleihau defnydd diangen o ddeunyddiau crai.

Y cam nesaf y dylid ei gymryd yw defnyddio adnoddau eilaidd ac wedi'u hailgylchu mewn gwaith adeiladu neu adnewyddu lle bynnag y bo'n bosibl. Mae defnyddio'r deunyddiau hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd mewn dwy ffordd: maent yn

---

[9] Securing the Future – Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69412/pb10589-securing-the-future-050307.pdf

[10] Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned https://sustainabledevelopment.un.org/index.php?page=view&type=99&nr=79&menu=1449

[11] Tuag at Ddyfodol Diwastraff https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/tuag-at-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff.pdf

[12] Hierarchaeth Gwastraff – cwestiynau cyffredin: http://www.environment-agency.gov.uk/business/regulation/129223.aspx

[13] Y Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff http://www.businesslink.gov.uk/bdotg/action/detail?itemId=1086950582&type=RESOURCES

[14] ISO 14000: http://www.iso.org/iso/home/standards/management-standards/iso14000.htm

lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi; ac maent yn lleihau'r angen i gynhyrchu deunyddiau newydd gan felly arbed ynni ac adnoddau naturiol. Os gall deunydd a ailddefnyddir gael ei achub ar y safle, yna gellir lleihau costau teithio, ynni ac allyriadau hefyd.

Dylai unrhyw adeiladau neu isadeiledd presennol ar y safle gael eu hailddefnyddio os yn bosibl. Lle nad oes deunyddiau ar gael i'w hailddefnyddio, dylid archwilio ffynonellau deunyddiau wedi'u hailgylchu. Dylai targedau ar gyfer canran y deunyddiau eilaidd a ddefnyddir mewn prosiectau adeiladu gael eu mabwysiadu a'u monitro gan fuddiolwr y gweithrediad. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel rhan o Lywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod isafswm o 10% o gyfanswm gwerth deunyddiau a ddefnyddir yn rhai wedi'u hailgylchu neu a ailddefnyddir. Dylai gweithrediadau hefyd geisio cael o leiaf 25% o'r agregau a ddefnyddir o ffynonellau eilaidd neu wedi'u hailgylchu, er mwyn cyfrannu tuag at yr amcanion a nodir yn MTAN 1: Agregau.

Lle nad yw'n ymarferol defnyddio deunyddiau a ailddefnyddir neu sydd wedi'u hailgylchu, dylid prynu deunyddiau mor lleol a chynaliadwy â phosibl. Mae adnoddau cynaliadwy'n golygu'r rhai a reolir fel nad ydynt yn dihysbyddu lefelau'r adnoddau naturiol sydd ar gael, er enghraifft pren a brynwyd o goetir sydd wedi ennill achrediad y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC)[15]. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) hefyd ddarparu canllawiau ar hyn.[16]

Mae effeithlonrwydd dŵr yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau hefyd. Dylai mesurau arbed dŵr megis llif tap â chyfyngiad amser a chyfleusterau storio dŵr gael eu gosod. Gellir arbed dŵr hefyd drwy gynlluniau storio dŵr ac ailgylchu dŵr (sy'n ailgylchu 'dŵr llwyd'*). Gellir defnyddio'r dŵr llwyd wedyn ar gyfer tai bach a dyfrhau. Gall systemau draenio gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dyluniad trefol, drwy daro cydbwysedd rhwng y gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau.

Cyfeirir ar y cyd at ddulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried maint y dŵr (llifogydd), ansawdd y dŵr (llygredd) a materion o ran amwynderau fel Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDCau)[17] neu raglen 'GlawLif' Dŵr Cymru/Welsh Water[18], rhaglen sy'n dangos mathau amrywiol o isadeiledd glas.

## Strategaeth Ddŵr i Gymru:

Mae'r strategaeth yn amlygu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn parhau i feddu ar amgylchedd dŵr sy'n ffynnu ac sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau llewyrchus a'r amgylchedd. Caiff y strategaeth ddŵr i Gymru ei chefnogi gan asesiad strategol o'r amgylchedd ac asesiad rheoliadau cynefinoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am y strategaeth ddŵr i Gymru, ewch i: https://llyw.cymru/strategaeth-ddwr-i-gymru

[15] Y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) http://www.fsc.org
[16] Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC): https://naturalresources.wales/splash?orig=/
[17] Susdrain – Sustainable Urban Drainage http://www.susdrain.org/delivering-suds/using-suds/background/sustainable-drainage.html
[18] GlawLif - http://www.dwrcymru.com/cy-GB/My-Wastewater/RainScape/What-can-you-do-to-help.aspx

O ran lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd bydd hyfforddiant a chyngor arbenigol yn rhoi sylw i faterion penodol gyda buddiolwyr. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd ac mae wedi gosod targed i ostwng allyriadau 3% y flwyddyn mewn meysydd a reolir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i ddatblygu dull cadarn o fonitro a gwerthuso perfformiad o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd a chyflawniad yn hynny o beth.

Dylai gweithrediadau ystyried isadeiledd sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd[19] (lle y bo'n briodol) yn ystod y cam dylunio. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn hanfodol ar gyfer y dyfodol ac mae angen meithrin gwydnwch i ddygymod â'r newidiadau anorfod hyn. Mae'r pwysigrwydd a roddir yn fyd-eang i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau ein gwydnwch yn y dyfodol yn tyfu o ganlyniad. Er enghraifft, mae isadeileddau gwyrdd megis toeau a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, ac isadeiledd glas megis bio-bantiau, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau), yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig o ran creu datblygiadau sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd. Mae felly'n hanfodol ein bod yn parhau i gymryd camau ar unwaith i gwtogi ac atal allyriadau nwyon tŷ gwydr er mwyn bod ag unrhyw obaith o gadw effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ar lefelau dichonadwy.

Dylai gweithrediadau geisio cynnwys fel rhan o isadeiledd sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd y cysyniad o sefydlu strategaethau isadeiledd gwyrdd[20] ar raddfa fechan yn nyluniad y gweithrediadau. Gall isadeiledd gwyrdd fod ar sawl ffurf, er enghraifft gall amrywio o isadeiledd ar raddfa fechan, megis dolydd trefol, toeau gwyrdd a gwestai gwenyn, i isadeiledd ar raddfa fwy, megis parcdir wedi'i gynllunio, ardaloedd wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a lleiniau tyfu cymunedol fel rhan o gynllun amaethyddiaeth drefol. Ceir mwy o wybodaeth yn y matrics ar gyfer y themâu trawsbynciol (ERDF) sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon.
http://gov.wales/docs/wefo/publications/160318-erdf-matrix.pdf

Mae WEFO, fel rhan o Lywodraeth Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl adeiladau newydd (sy'n cael eu hyrwyddo neu eu cefnogi) fodloni ein safonau adeiladu cynaliadwy, gyda rhai eithriadau. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cael eu caffael yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Ac eithrio rhai eithriadau (isod) ar gyfer adeiladau penodol, mae'n ofynnol i ddatblygiadau amhreswyl gael gradd Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) neu radd cynllun sicrwydd ansawdd cyfwerth.
Rhaid gwirio'r sgôr yn ystod y cam ar ôl adeiladu a rhaid cyflwyno'r dystysgrif BREEAM i ymgynghorydd datblygu cynaliadwy WEFO i'w gadarnhau. Wrth fodloni safonau adeiladu BREEAM, bydd modd sicrhau y caiff amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu cyflawni.

---

[19] Climate resilient infrastructure: Preparing for a changing climate
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69269/climate-resilient-infrastructure-full.pdf

[20] Ymddiriedolaethau Natur Cymru – Seilwaith Gwyrdd
http://www.wtwales.org/sites/default/files/wtw_green_infrastucture_welsh_final.pdf

**Gofynion Polisi (annomestig)**

Mae'r gofynion yn seiliedig ar arwynebedd y llawr:

| Arwynebedd llawr yr adeilad | Y Gofyn o ran Polisi |
|---|---|
| <=250m2 | Dim |
| 251-1,000m2 | Nid oes angen gradd BREEAM<br>Mae angen Rhan L+10%* |
| 1001-2000m2 | Gradd 'Da iawn' BREEAM gyda Chredydau Ynni (ENE01) 'Ardderchog' |
| 2001+m2 | Gradd 'Ardderchog' BREEAM ' |

*Mae Rhan L +10%' yn cyfeirio at welliant o 10% ar Gyfradd Allyriadau Targed (TER) Rhan L y Rheoliadau Adeiladu.

**Beth yw BREEAM?**

Dull yw BREEAM sy'n cael ei ddefnyddio i asesu perfformiad amgylcheddol adeiladau hen a newydd. Mae'n cael ei ystyried fel mesur o arfer da ym maes dylunio a rheoli amgylcheddol ac mae'n cael ei ddefnyddio i bennu'r safon gyfredol ar gyfer prosiectau Llywodraeth Cymru.

**Aseswyr**

Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) yn hyfforddi Aseswyr Annibynnol sy'n gorfod pasio arholiad i ennill y cymhwyster angenrheidiol sy'n caniatáu iddyn nhw gynnal gwaith asesu o dan gytundeb trwyddedu. Er hynny, BRE sy'n rhoi'r Dystysgrif ei hun ar ôl archwilio ansawdd yr asesiad ar ôl cwblhau adeilad.

Mae asesiadau'n cael eu cynnal gan aseswyr sydd wedi'u cymeradwyo gan BRE. Mae credydau'n cael eu dyfarnu ym mhob categori yn ôl perfformiad. Ceir credydau gorfodol (er enghraifft, defnyddio ynni'n effeithlon) mewn rhai categorïau. Drwy set o bwysolion amgylcheddol, caiff y credydau eu hadio ynghyd i greu un sgôr gyffredinol.

Cewch restr o Aseswyr Annibynnol ar wefan Green Book Live: http://www.greenbooklive.com/.

## Y Broses Asesu

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell eich bod yn ystyried BREEAM cyn gynted â phosibl yn y broses ddylunio. Dylai asesiad gael ei gynnal yn ystod y Cam Dylunio fel eich bod yn gwybod beth fydd sgôr debygol yr adeilad yn gynnar yn y broses. Bydd hynny'n ddefnyddiol er mwyn gwybod pa gamau sydd angen eu cymryd, y costau tebygol a'r dyluniad sydd ei angen i greu adeilad BREEAM. Bydd gan bawb yr un wybodaeth a'r un ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen. Bydd hynny'n sicrhau mai'r swm cywir o arian sy'n cael ei wario a'r swm cywir o waith sy'n cael ei wneud, hynny i gyd ar yr adeg iawn.

## Y mathau o adeiladau mae hyn yn ei gynnwys

Mae'r mathau o adeiladau'n cynnwys:

- adeiladau sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol
- adeiladau awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a chyrff a noddir a gyllidir gan un o'n rhaglenni cyfalaf penodol, megis tai fforddiadwy, ysgolion, colegau addysg bellach ac uwch, ysbytai ac adeiladau cyhoeddus eraill
- adeiladau ar ddatblygiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn dod i gytundeb cyd-fenter â phartneriaid neu ddatblygwyr, gan gynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol
- adeiladau ar dir sydd ar werth, neu ar brydles neu i'w gwaredu ar gyfer ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru
- adeiladau ar dir mae Llywodraeth Cymru yn ei wella neu'n ei adfer neu drwy gyllid cyrff a noddir a allai gael ei adfachu
- adeiladau a godir gan y sector preifat a gwirfoddol, sefydliadau neu unigolion eraill, o dan gynlluniau a rhaglenni cyllid Llywodraeth Cymru.

## Eithriadau

Eithriadau Os nad oes modd i weithrediadau sicrhau gradd ardderchog BREEAM am resymau technegol, yna caiff 'eithriadau' eu hystyried fesul achos gan gynghorydd Datblygu Cynaliadwy  Themâu Trawsbynciol WEFO a Phrif Weithredwr WEFO.

Dyma restr o'r eithriadau awtomatig i'r polisi:

- Pob adeilad sy'n 250m$^2$ neu lai o arwynebedd
- Pob adeilad sy'n cael ei estyn, ei newid, ei ailwampio a newid ei ddefnydd
- Prosiect adeiladu/datblygiadau hap gan y sector preifat/trydydd parti, pan fydd Llywodraeth Cymru'n rhoi llai na £1,000,000 o gymorth ariannol neu lle rhoddir benthyciad masnachol. Bydd gofyn bod gan adeiladau o'r fath sy'n fwy na 250m$^2$ dystiolaeth iddynt sicrhau gwelliant o 10% yng Nghyfradd Allyriadau Targed (TER) Rhan L y Rheoliadau Adeiladu
- Pob adeilad Dosbarth Defnydd BB (storio a dosbarthu)
- Pob adeilad amaethyddol (adeiladau amaethyddol amhreswyl â galw ynni isel sydd wedi'u heithrio rhag y gofyn yn y rheoliadau adeiladu i ddefnyddio'n ynni'n effeithlon)
- Pob adeilad gwastraff ac ynni, fel cyfleusterau trosglwyddo gwastraff a gorsafoedd cynhyrchu pŵer
- Unrhyw dir 'moel' sy'n cael ei werthu (hy heb ymrwymiad i ddatblygu) neu dir sy'n cael ei werthu am resymau heblaw polisi ee nid er mwyn datblygu'r economi neu i adeiladu tai

Dylai adeiladau hefyd edrych tuag at gyflawni gwobr meincnod bioamrywiaeth yr Ymddiriedolaeth Natur[21]. Dyma'r unig wobr i fusnesau gydnabod a gwobrwyo gwelliannau parhaus i seilwaith gwyrdd/bioamrywiaeth. Gall y wobr ategu systemau rheoli amgylcheddol presennol megis ISO14001 a BREEAM drwy integreiddio bioamrywiaeth i systemau sefydliad. Gall hefyd weithredu fel system ar ei phen ei hun.

Y cam cyntaf y dylid ei gymryd bob amser i leihau cyfraniad sefydliad at allyriadau carbon yw lleihau swm yr ynni a ddefnyddir. Mae cael y cyngor cywir yn gynnar gan ymgynghorydd â sgiliau priodol yn hollbwysig a gall ddwyn arbedion economaidd sylweddol yn ddiweddarach yn oes y gweithrediad.

O safbwynt ynni, dylai'r dyluniad ar gyfer unrhyw adeilad newydd neu waith adnewyddu ystyried:

- topograffeg y safle
- cyfleoedd i gynyddu i'r eithaf y mesurau i ddiogelu rhag y gwynt
- cyfleoedd i gynyddu i'r eithaf oleuadau neu systemau gwresogi sy'n defnyddio ynni'r haul
- dyluniad sy'n defnyddio ynni haul goddefol a mesurau effeithiol i inswleiddio'r adeilad
- dull dylunio sy'n ystyried y ffabrig yn gyntaf a lleihau i'r eithaf y galw am ynni a'r ôl troed carbon

[21] Biodiversity Benchmark: http://www.wildlifetrusts.org/biodiversitybenchmark

- goleuadau ynni-effeithlon
- systemau gwresogi ynni-effeithlon, er enghraifft gosod dyfeisiau effeithlonrwydd uchel Gradd A megis boeleri ynni-effeithlon gydag unedau gwres a phŵer cyfunol.

Drwy wella effeithlonrwydd ynni, gallwch ostwng costau gweithredol, ennill manteision cystadleuol yn y farchnad a lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.

Unwaith y mae adeilad yn weithredol, dylid cynhyrchu a gweithredu cynllun effeithlonrwydd ynni ar gyfer y safle. Bydd y cynllun hwn yn nodi’r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i leihau’r defnydd o ynni gan gynnwys diffodd yr holl systemau gwresogi a goleuadau diangen a dyfeisiau nas defnyddir. Bydd hyn ynddo’i hun yn darparu arbedion economaidd sylweddol. Dylai gweithrediadau fod yn anelu at ddilyn yr ‘hierarchaeth ynni’:

1. Defnyddio llai o ynni;
2. Defnyddio ynni’n effeithlon;
3. Defnyddio ynni adnewyddadwy.

Dylai gweithrediadau sy’n cynnwys gwaith peirianneg sifil gael gwobr dan gynllun asesu CEEQUAL[22], sy’n ceisio sicrhau ansawdd amgylcheddol uchel. Mae’r cynllun gwobrwyo hwn yn ategu cynllun BREEAM ar gyfer adeiladau newydd a gwaith adnewyddu i adeiladau. Er nad yw’n un o ofynion polisi Llywodraeth Cymru, mae’r cynllun wedi cael ei ddefnyddio ar weithrediadau yng Nghymru.

Wedi i nodweddion dylunio a mesurau gweithredol ynni-effeithlon gael eu hystyried, gall fod yn bosibl gosod technoleg ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy megis gwresogi dŵr gan ddefnyddio ynni’r haul, paneli solar ffotofoltaidd, biomas neu dyrbinau gwynt. Mae’n hanfodol cael cyngor arbenigol cyn gosod unrhyw opsiynau o ran ynni adnewyddadwy, gan ei bod yn bosibl na fydd pob system yn addas ym mhob achos. Cyn gosod tyrbinau gwynt yn enwedig, rhaid cael asesiad arbenigol bob amser i ganfod a yw’r adeilad yn addas ar gyfer gosodiad o'r fath. Os nad yw’n ymarferol gosod cyfleusterau ynni adnewyddadwy, byddai’n dal yn bosibl newid i gwmni trydan sy’n cyflenwi ynni o ffynonellau sy’n gwbl adnewyddadwy.

## Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Ewrop 2020 yw Platfform yr UE yn erbyn Tlodi sy’n cefnogi ffocws y Comisiwn ar drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol ac a fydd yn mynd ar drywydd targed EU2020 o 20 miliwn yn llai o bobl mewn tlodi.

[22] CEEQUAL – Y Cynllun Asesu Ansawdd a Dyfarniadau Peirianneg Sifil http://ceequal.com

Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechi Tlodi Llywodraeth Cymru (TPAP) 2012 – 2016[23] yn nodi'r targedau a'r cerrig milltir y mae'r Llywodraeth yn gweithio tuag atynt i leihau tlodi yng Nghymru.

Wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi dan yr amcan 'Lliniaru effaith tlodi' mae'r targed i sicrhau mynediad teg a chyfartal at wasanaethau iechyd, tai, ariannol a digidol o ansawdd uchel ni waeth ble y mae pobl yn byw na beth yw eu hincwm. O dan y targed hwn ceir dau darged pellach sydd wedi'u halinio â Blaenoriaethau rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sef; targed yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi i ddarparu 7,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol (cymdeithasol a chanolradd) erbyn 2016, sydd wedi'i alinio ag Echel Flaenoriaeth 3 yn rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sef Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni, lle gwneir gwelliannau i effeithlonrwydd ynni'r stoc dai; yn ail, targed ar gyfer cynyddu cynhwysiant digidol i'r bobl hynny sy'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar, preswylwyr mewn tai cymdeithasol a phobl dros 50 oed, a fyddai'n cydberthyn ag Echel Flaenoriaeth 4 yn rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sef Cysylltedd a Datblygu Trefol (Echel Flaenoriaeth 4 - Cysylltedd yn Nwyrain Cymru) sy'n amcanu at gynyddu nifer y safleoedd â mynediad at fand eang (aelwydydd).

Fe wnaeth y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi alinio un o'i dargedau dan yr amcan i 'Helpu pobl i gael gwaith' â'r targed yn rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gyfeirio o leiaf 20 y cant o'r arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn 2014-2020 i gael ei fuddsoddi mewn trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy helpu pobl i ganfod a chadw cyflogaeth gynaliadwy. Byddai rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ategu'r camau gweithredu hyn drwy gynyddu cystadleurwydd BBaChau gan felly gynyddu eu gallu i greu swyddi a thyfu.

Mae ffocws Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar ysgogi twf economaidd a chynlluniau i greu swyddi cynaliadwy ar draws y rhaglenni, gan wella'r cysylltedd rhwng meysydd lle ceir twf economaidd ac anghenion unigolion difreintiedig. Bwriad y rhaglen yw cysylltu pobl, sgiliau a swyddi, gan gynyddu eu symudedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth gynaliadwy a fyddai'n cefnogi siwrne unigolyn tuag at fywyd heb dlodi. Mae'r rhaglen yn amcanu at wella effeithlonrwydd ynni'r stoc dai gan anelu at ostwng biliau ynni aelwydydd a chodi unigolion allan o dlodi tanwydd. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â tharged Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru[24] i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod neb yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Un o amcanion ychwanegol y rhaglen yw cynyddu nifer yr aelwydydd â mynediad at fand eang â chyflymder o 30mbps o leiaf.

Byddai manteision mynediad cynyddol at fand eang yn ei gwneud yn bosibl, er enghraifft, cael mwy o gydymffurfiaeth â gofynion Canolfan Byd Gwaith o ran mynediad at y system Universal Jobmatch. Byddai hyn felly'n darparu ffenestr reolaidd ar gyfer monitro swyddi gwag gan wneud y broses yn fwy cyfleus ac effeithlon; yn ehangu cyfleoedd i unigolion heb lawer o brofiad neu heb ddim profiad o TG gael hyder ac yn gostwng eu lefelau o ran allgáu digidol a byddai hyn yn ei dro'n cynyddu eu cyfle i

[23] Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-gweithredu-ar-gyfer-trechu-tlodi-2013
[24]Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/strategaeth-tlodi-tanwydd

gynnal, er enghraifft, chwiliadau cymharu er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyflenwyr ynni neu'r yswiriant cartref â'r pris gorau.

Teitl Adran 5 o'r Rhaglen Weithredol yw 'Anghenion Penodol yr Ardaloedd Daearyddol yr Effeithir arnynt fwyaf gan Dlodi neu Grwpiau Targed sydd Fwyaf Mewn Perygl o Wahaniaethu neu Allgáu Cymdeithasol, gydag Ystyriaeth Arbennig i Gymunedau Wedi'u Hymyleiddio a Phobl ag Anableddau', ac mae'n nodi y bydd y ffocws ar gysylltu grwpiau targed â chyfle economaidd, gan wella cysylltedd mewn ardaloedd daearyddol penodol lle nodir yn aml bod diffygion yn rhwystr i fynediad at gyflogaeth.

## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Yn 2011 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnwys hawliau plant mewn cyfraith ddomestig drwy gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn sefydlu ystyriaeth i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau dewisol fel rhan annatod o gyfraith Cymru.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn nodi'r trefniadau y mae'n rhaid i Weinidogion eu rhoi ar waith i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cafodd y Cynllun hwn ei ddiwygio ar 1 Mai 2014 i adlewyrchu ymrwymiad pellach i hawliau plant.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod Adrannau Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gweinidogion i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Erfyn strwythuredig ac iddo chwe cham yw'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n rhoi arweiniad i'r defnyddiwr drwy'r broses o roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac sy'n sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd dan adran 1 o'r Mesur.[25]

## Gwersi a ddysgwyd o raglenni blaenorol.

Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol[26] wedi'i gynnal i adnabod effeithiau posibl rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar yr amgylchedd a rhoi cymorth i ddatblygu rhaglen 2014-2020. Ei amcan yw sicrhau bod y Rhaglen yn cyfrannu'n gadarnhaol at lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd, yn ogystal â chefnogi nod Llywodraeth Cymru o ran gweithio tuag at ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r asesiad wedi'i gynnal yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol Ewropeaidd (2001/42/EC) a'r rheoliadau gweithredu ar gyfer Cymru, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Offeryn Cymru 2004 Rhif 1656 (W.170). Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y Rhaglen arfaethedig yn cynnig cyfle i hybu effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd, yn enwedig ar gadwraeth ynni, lleihau carbon, rheoli gwastraff, ailddefnyddio tir segur ac ar faterion

[25]Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant: https://wales365uk.sharepoint.com/sites/Mewnrwyd-Policy-Making-Legislation/SitePages/Children's-Rights-Impact-Assessment-CRIA.aspx
[26] Asesiad Amgylcheddol Strategol: https://llyw.cymru/cronfeydd-yr-ue

iechyd a lles lleol.

Roedd gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel a cham strategol y bwriad o ganfod, hyd y gellir, unrhyw risgiau o effeithiau sylweddol a allai effeithio ar nodweddion (cynefinoedd a rhywogaethau) a enwir mewn hysbysiadau a dynodiadau safleoedd, ac wrth 'Safleoedd Ewropeaidd' rydym yn golygu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd Ramsar sy'n gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd, yn ogystal ag i gyfanrwydd rhwydwaith Natura 2000[27]. Y casgliadau oedd bod y mwyafrif o'r risgiau posibl o effaith sylweddol i'w gweld fel pe baent yn gysylltiedig â datblygu isadeiledd traethlin a môr, ac ehangu neu uwchraddio'r rhwydwaith ffyrdd. O ystyried agosrwydd rhai safleoedd Ewropeaidd at aneddiadau, mae peth risg o effaith o ganlyniad i ddatblygiadau trefol yn bosibl.

Ar y llaw arall, mae potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i ddyluniad gwell a gwerth ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai cynigion, megis gwelliannau o ran isadeiledd gwyrdd a darparu coridorau a llochesi, defnyddio systemau naturiol ar gyfer draenio, gwresogi ac oeri, a rheoli llifogydd a dalgylchoedd. Yn olaf, roedd yn annhebygol y byddai unrhyw gynnig unigol yn bodoli ar ei ben ei hun, a gallai'r synergeddau canlyniadol achosi pwysau yn y dyfodol.

## Strategaeth ar gyfer Gweithredu'r Themâu Trawsbynciol

Ceir strategaeth ar gyfer gweithredu'r themâu trawsbynciol yn nogfen Rhaglen Weithredol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Bydd cyngor arbenigol parhaus ar gael i fuddiolwyr. Bydd mewnbwn arbenigol yn cael ei ddarparu ar adeg gynnar i gynyddu i'r eithaf y defnydd o gyfleoedd i hybu'r tair thema drawsbynciol.
- Asesiad o'r themâu trawsbynciol ar bob cam yn y broses o ddatblygu Gweithrediadau.
- Bydd rhaglen o sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn cael ei darparu ar gyfer staff Llywodraeth Cymru a buddiolwyr ar sut i integreiddio'r themâu trawsbynciol, gyda chymorth gan gydweithwyr eraill yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar yr agweddau monitro a gwerthuso.
- Bydd canllawiau'n cael eu paratoi ynghyd ag astudiaethau achos i ddangos enghreifftiau o arfer gorau a fydd yn darparu gwybodaeth benodol ynghylch sut y gall buddiolwyr fynd i'r afael â'r tair thema drawsbynciol o fewn eu cynlluniau gweithredol.
- Monitro cynnydd yn rheolaidd.
- Adroddiadau diweddaru i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill.
- Bydd ystod o ddangosyddion ar lefelau'r Blaenoriaethau yn cael eu defnyddio hefyd i hybu'r themâu trawsbynciol.

## Dangosyddion Themâu Trawsbynciol Ffurfiol

Mae dangosyddion a thargedau Themâu Trawsbynciol wedi'u creu i gefnogi'r gwaith o ddarparu amcanion themâu trawsbynciol y rhaglen. Mae'n ofynnol i brosiectau sy'n cael eu cefnogi gan y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r targedau hyn.

[27] Natura 2000 http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/

**ERDF**

**Blaenoriaeth 1 Ymchwil ac Arloesi**

- % y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro

- % y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro

Bydd prosiectau a ariennir drwy Flaenoriaeth 1 yn cyfeirio mentrau at y prosiect Porth Arloesi Clyfar i gyflawni'r dangosyddion trawsbynciol.

**Blaenoriaeth 2 Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig:**

- % y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro

- % y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro

Nid oes unrhyw ddangosyddion themâu trawsbynciol penodol ar gyfer Trechu Tlodi, ond mae dangosyddion ar gyfer rhaglenni, sy'n cyfrannu at yr agenda, e.e. cefnogi cynlluniau ynni cymunedol; Sicrhau bod cartrefi mewn categori gwell o ran defnyddio ynni; Creu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus etc.

## Dangosyddion Lefel (Prosiect) Achosion Themâu Trawsbynciol

Mae pennu targedau ffurfiol yn sbardun pwysig i sicrhau bod prosiectau'n rhoi sylw i'r Themâu Trawsbynciol. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws monitro cynnydd yn systematig dros gyfnod y rhaglen. Fodd bynnag, yn 2014 /2015, cynhaliodd WEFO werthusiad o sut yr oedd y Themâu Trawsbynciol wedi eu hintegreiddio i raglenni 2007-2013 a oedd wedi eu hariannu gan Ewrop. Un o'r materion pwysig a gododd yn sgil y gwerthusiad oedd bod rhanddeiliaid (sef y rheini a oedd yn rhedeg prosiectau a'r rheini a oedd yn darparu gweithgarwch) am gael ffordd well o ddangos eu bod yn llwyddo i ddarparu gweithgarwch a oedd yn cyfrannu at y Themâu Trawsbynciol. Roeddent o'r farn bod y dangosyddion ffurfiol yn rhy gyffredinol, ac yn aml nad oeddent yn berthnasol i weithgarwch prosiectau penodol. Mewn ymateb i'r adborth hwn, cafodd dangosyddion Themâu Trawsbynciol ychwanegol eu pennu ar lefel prosiect. Roedd y rhain yn ei gwneud yn bosibl i WEFO gasglu gwybodaeth am ystod ehangach o weithgarwch. Mae dangosyddion ffurfiol yn parhau i fod yn berthnasol, ond bellach nid ydym yn dibynnu arnynt i ddatgelu'r darlun llawn o ran i ba raddau y mae prosiect yn llwyddo i ddarparu gweithgarwch Themâu Trawsbynciol.

Isod mae rhestr o'r dangosyddion ar lefel prosiect sydd wedi eu nodi hyd yn hyn, ond gellir ychwanegu atynt os bydd gweithgarwch ychwanegol nad yw ar y rhestr yn cael ei ddarparu. **Dim ond rhai ohonynt fydd yn berthnasol i'ch project chi; mae'n dibynnu ar y gweithgarwch yr ydych yn ei ddarparu:**

**Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw**

- Mesurau gweithredu cadarnhaol i gefnogi menywod
- Mesurau gweithredu cadarnhaol i gefnogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- Mesurau gweithredu cadarnhaol i gefnogi pobl ifanc
- Mesurau gweithredu cadarnhaol i gefnogi gweithwyr hŷn
- Mesurau gweithredu cadarnhaol i gefnogi pobl anabl
- Mesurau gweithredu cadarnhaol i gefnogi eraill
- Gweithgareddau sy'n herio gwahanu galwedigaethol
- Mynd i'r afael â chyflogau anghyfartal
- Gweithgarwch i gynnwys menywod ym mhynciau STEM
- Gweithgarwch i hybu'r Gymraeg
- Gweithgarwch i gefnogi siaradwyr Cymraeg
- Gweithgarwch i hybu cydweithio â'r Grŵp Mynediad ar gyfer Pobl Anabl
- Rhaglenni iechyd yn y gweithle
- Darparu gofal plant
- Darparu gofal arall

**Datblygu cynaliadwy**

- Datblygu Cod Eco sefydliadol
- Datblygu cadwyni cyflenwi cynaliadwy lleol
- Integreiddio seilwaith gwyrdd ar raddfa fach
- Integreiddio seilwaith glas ar raddfa fach
- Gweithgarwch i gefnogi bioamrywiaeth ar safleoedd a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol.
- Datblygu Cynllun Teithio Sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy
- Mesurau i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon
- Cynlluniau rheoli amgylcheddol safleoedd
- BREEAM Ardderchog lle y bo'n briodol
- BREEAM Da Iawn lle y bo’n briodol
- Defnyddio CEQUALL ar gyfer gwaith adeiladu
- Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) lle y bo'n briodol

**Mae rhai o’r canlyniadau positif ar gyfer Themâu Trawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw, a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yn gysylltiedig â’i gilydd, ac felly fe ellir eu defnyddio ar gyfer y ddwy Thema Drawsbynciol.**

**Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

- Gweithgarwch sy'n arwain at fagu sgiliau yn y gymuned
- Gweithgarwch mentora ac eirioli
- Gweithgarwch i gefnogi cymheiriaid
- Cefnogi prosiectau ar gyfer gwirfoddolwyr
- Sefydliadau sy'n talu cyflog byw

**Themâu Trawsbynciol Cyffredinol**

- Arferion da ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Datblygu / ymgysylltu ag eiriolwyr Themâu Trawsbynciol
- Integreiddio Cymalau Cymdeithasol i weithgarwch
- Pecyn Cymorth, gwiriadau iechyd, systemau sylfaenol, Apiau ac ati
- Datblygu pecynnau hyfforddi ar Themâu Trawsbynciol
- Cyflwyno rhaglen hyfforddi ar Themâu Trawsbynciol i staff
- Gweithgarwch sy'n cyfrannu at ddangosyddion ffurfiol themâu trawsbynciol yn y blaenoriaethau / amcanion lle nad ydynt yn bresennol.

## Monitro a Gwerthuso

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n gyfrifol am werthusiadau ar lefel Rhaglenni mewn perthynas â Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, gan gynnwys rhoi cyngor i weithrediadau ar fonitro a gwerthuso. Mae canllawiau pellach ar fonitro a gwerthuso, gan gynnwys esboniadau ar derminoleg, wedi cael eu cynhyrchu gan Gangen Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac maent ar gael o wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru https://llyw.cymru/monitro-gwerthuso-prosiectau-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-canllawiau

Mae canllawiau ar dystiolaeth briodol i ddangos sut y mae'r themâu trawsbynciol yn cael eu hintegreiddio wedi'u drafftio ac mae'n rhan o ddogfen ganllaw 'Dangosyddion a Cherrig Milltir ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)' sydd ar gael yma: https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-dangosyddion-perfformiad

Bydd tîm y themâu trawsbynciol yn darparu cyngor, cymorth a gwaith monitro yn barhaus ar gyfer yr holl 'Weithrediadau' a gymeradwywyd yn ogystal â gofyn am dystiolaeth a gwirio tystiolaeth sy'n cefnogi hawliadau o ran y themâu trawsbynciol.

## Themâu Trawsbynciol a Dirwyn Prosiect i Ben:

Wrth baratoi i ddirwyn gweithrediad i ben, byddai tîm y themâu trawsbynciol yn disgwyl bod:

- Sampl tystiolaeth dangosydd cysylltiedig â themâu trawsbynciol wedi'i chyflwyno a bod tîm y themâu trawsbynciol wedi cadarnhau ei bod yn bodloni gofynion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Cerrig milltir themâu trawsbynciol, materion neu amodau arbennig themâu trawsbynciol / camau gweithredu a godwyd gan dîm y themâu trawsbynciol ar gyfer y gweithrediad wedi eu cyflawni a bod tîm y themâu trawsbynciol wedi cytuno y gellir eu dirwyn i ben.
- Tîm y themâu trawsbynciol wedi gweld a gwneud sylwadau ar y gwerthusiad terfynol o'r gweithrediad (lle mae angen rhoi adroddiad ar nodau, amcanion ac ymrwymiadau themâu trawsbynciol y gweithrediad yn ogystal ag unrhyw gyflawniadau neu lwyddiannau o ran dangosyddion themâu trawsbynciol neu unrhyw anawsterau i gyflawni'r themâu trawsbynciol).

## Ffeithluniau ar y Themâu Trawsbynciol:

Mae'r tîm Themâu Trawsbynciol wedi datblygu, ac yn parhau i ddatblygu ffeithluniau o

astudiaethau achos sy'n dangos yr arfer da sy'n cael ei gyflawni mewn perthynas â Themâu Trawsbynciol yn rhaglenni 2014-2020. Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol ar WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales

Mae cyfres o daflenni gwybodaeth hefyd ar gael sy'n amlygu sut y cyflawnwyd yn erbyn ystod o ddangosyddion cyfleoedd cyfartal a datblygu cynaliadwy yn rhaglenni 2007-2013.

## Cysylltwch â'r tîm Themâu Trawsbynciol ar WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales i gael y taflenni ffeithiau hyn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Dogfen Rheoli Fersiynau Canllawiau ar Themâu Trawsbynciol

**Log diweddaru Canllawiau Themâu Trawsbynciol Fersiwn 5 – Hydref 2018**

| | | |
|---|---|---|
| Cyffredinol | | Mae’r newidiadau Cyfle Cyfartal isod i gyd wedi’u gwneud yn y fersiwn Gymraeg |
| | | |
| Drwyddi draw | Canllawiau a dolenni wedi’u diweddaru | |
| Tudalen flaen a drwyddi draw | Newid 'fersiwn 4 Mehefin 2017' i ' fersiwn 5: Ionawr 2018' | Troedyn tudalen – fersiwn newydd o'r ddogfen |
| Cyfle Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhywedd | | |
| | | |
| 10 | Yn lle 'Iaith fyw... 2012-17' rhoi 'Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg' | Strategaeth wedi'i diweddaru |
| 11 | Dileu’r cyfeiriad at ddogfen ‘Grantiau, benthyciadau a nawdd’ Comisiynydd y Gymraeg | Wedi dyddio. Bellach wedi cynnwys y canllawiau newydd ‘Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg’ a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. |
| 11 | Ychwanegu '2011' at y cyfeiriad at Fesur y Gymraeg (Cymru) | Cyfeiriad llawn at ddeddfwriaeth |
| 22 | Ychwanegu testun | Ychwanegu esboniad o’r mecanwaith atgyfeirio ar gyfer Dangosyddion Trawsbynciol P1 ERDF. |
| 28 | Testun wedi’i olygu a’i symud | Cyfeiriad at ganllawiau ar gyfer dangosyddion trawsbynciol gan gynnwys dolen |
| 28 | Testun wedi’i olygu a’i symud | Ychwanegu testun a dolen URL ar gyfer y ffeithlun Translation: Please update Welsh version English |
| 28 | Ychwanegu testun | Proses atgyfeirio Porth Arloesi Clyfar a Dangosyddion Trawsbynciol |
| 29 | Testun wedi’i olygu a’i symud | Gwybodaeth am daflenni gwybodaeth gan gynnwys dolen |
| DATBLYGU CYNALIADWY | | |
| 14 | Deddf yr Amgylchedd | Testun wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau. |

| | | |
|---|---|---|
| 14 | Y Ddeddf Gynllunio | Testun wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau. |
| 15 | Troednodyn | Dileu dogfen oedd yno ddwywaith. |
| 16 | Testun | Newid yn y derminoleg. |
| 17 | Newid adroddiad | Dileu adroddiad sydd wedi dyddio. (Ychwanegu fersiwn Saesneg gan nad oes fersiwn Gymraeg ar gael) |
| 18-21 | Testun BREEAM | Newid yn llwyr i adlewyrchu'r testun newydd – Mae'r rhan fwyaf o'r testun ar gael ar dudalen we BREEAM Cymru Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/Sustainable-Building-Standards/?skip=1&lang=cy |
| 22 | BREEAM | Dileu testun i adlewyrchu'r canllawiau newydd (fersiwn Gymraeg wedi'i newid i adlewyrchu Saesneg |
| 27 | Testun ychwanegol | BREEAM Da Iawn i adlewyrchu newidiadau |
| Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol | | |
| 22 | Dileu a golygu testun | Adlewyrchu newidiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â thlodi (fersiwn Gymraeg wedi'i newid i adlewyrchu'r Saesneg |

## Log Diweddaru Canllawiau Themâu Trawsbynciol Fersiwn 6 – Mawrth 2020

| | | |
|---|---|---|
| Cyffredinol | | Mae'r holl newidiadau isod wedi cael eu gwneud i'r fersiwn Gymraeg |
| | | |
| Drwyddi Draw | Diweddaru'r canllawiau a'r gwe-ddolenni | |
| Y dudalen gyntaf a drwyddi draw | Newid 'fersiwn 5 Hydref 2018' i 'fersiwn 6: Mawrth 2020' | Troedyn – fersiwn newydd o'r ddogfen |
| | | |
| | | |
| Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd | | |
| 9-10 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru a'r Amcanion | Diweddaru i gyfeirio at y Cynllun diweddaraf 2020-24 ac Amcanion |
| 10 | Diweddaru Strategaethau Llywodraeth Cymru | Fersiynau mwy newydd a gwe-ddolenni ar gael |
| 29 | Diweddaru'r gwe-ddolenni at ddogfennau Canllawiau RME WEFO | Nid yw'r gwe-ddolenni'n gweithio |
| 30 | Diweddaru'r ddolen at y ffeithluniau Themâu Trawsbynciol | Nid yw bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| 30 | Diweddaru'r ddolen at y daflen ffeithiau Themâu Trawsbynciol | Nid yw bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru |
| | | |
| Datblygu Cynaliadwy | | |
| Drwy'r ddogfen | Diweddaru gwefannau. | Nid yw'r gwe-ddolenni'n gweithio |
| 17 | Agregau TAN | Wedi'i dynnu o wefan Llywodraeth Cymru |
| 22 | Cymru Effeithlon | Wedi'i dynnu o wefan Llywodraeth Cymru |
| | | |
| Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol | | |
| Drwy'r ddogfen | Diweddaru gwefannau | Nid yw'r gwe-ddolenni'n gweithio |



Gwefan: https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-canllawiau-prosiectau | E-bost: enquiries-wefo@wales.gov | Ffôn: 0845 010 3355